**Bwrdd Rhianta Corfforaethol CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar-lein ddydd Llun, 14 Mawrth 2022 am 10.00am.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd C. Leyshon (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G. Caple (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Rees

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms M Ropstad, Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol
Ms C Williams, Pennaeth Cymorth i Deuluoedd a Llety
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant

**Eraill oedd yn bresennol**

Annabel Galt, VfCC/Fforwm Glasbrint – Swyddog Datblygu
A W - Cynrychiolydd Pobl Ifainc

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a Swyddogion i Bwyllgor y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. Hooper ac E. Griffiths.

## 2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gafodd ei gynnal ar 31 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

## 4 ADRODDIAD CHWARTEROL FFORWM RHCT

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu adroddiad i Bwyllgor y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gan roi crynodeb i'r Aelodau o gyflawniadau VfCC o ran allgymorth i Bobl Ifainc a throsolwg o Ddiwrnod Gofal 2022.

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu gynrychiolydd pobl ifainc i'r Bwrdd a chyflwynodd ymateb ysgrifenedig gan y cynrychiolydd pobl ifainc yn seiliedig ar thema allweddol Diwrnod Gofal 2022, sef *'Yr hyn sy'n gwneud i chi ffynnu'*. Dywedodd y cynrychiolydd pobl ifainc wrth y Bwrdd mai'r hyn sy'n gwneud iddi ffynnu yw gwybod bod nifer o wasanaethau a rhwydweithiau cymorth ar gael i helpu gydag unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd gyda hi. Nododd y gwasanaethau cymorth sydd ar gael sy'n gwneud iddi deimlo'n hyderus bob dydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r cynrychiolydd pobl ifainc am ei hymateb gan gydnabod y cymorth ac arweiniad mae hi'n eu rhoi i bobl eraill.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am bwysigrwydd ymgysylltu yn y grŵp. Nodwyd bod pobl wedi cael eu hannog i ymgysylltu yn ystod y chwarter ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gadw mewn cysylltiad rheolaidd ag aelodau'r grŵp a gweithwyr proffesiynol yn yr Awdurdod Lleol, a rhannu gwybodaeth â nhw. Canolbwynt yr ymgysylltu oedd dod ag aelodau'r grŵp at ei gilydd er mwyn dod o hyd i ddulliau arloesol o ymgysylltu â phlant iau 14-22 oed, a hynny trwy gydweithio ag Actif Woods. Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu mai'r tro nesaf y bydd VfCC yn cydweithio ag Actif Woods fydd 11 Ebrill. Aeth y Swyddog Datblygu ati i gydnabod y ffigurau isel o ran nifer y cyfranogwyr o ganlyniad i'r pandemig a Storm Franklin. Arweiniodd hyn at ganslo grwpiau, gweithdai a gweithgareddau awyr agored wyneb yn wyneb. Serch hynny, cafodd gwasanaethau eu darparu ar-lein.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am Ddiwrnod Gofal 2022. Yn ystod y cyfnod yma, rhoddodd y garfan gymorth i bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gysylltu â phobl eraill sydd â'r un profiad ledled Cymru, Yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Rhoddodd hyn gyfle i bobl ifainc rannu eu meddyliau a theimladau am y cymorth a roddwyd. Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am adborth pobl ifainc o ran yr hyn oedd ei angen arnyn nhw, fel plant neu bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, i ffynnu.
Roedd yr adborth wedi canolbwyntio ar y canlynol:–

- Rhagor o wasanaethau cwnsela ac iechyd meddwl
- Cymorth emosiynol pellach (roedd pobl ifainc o'r farn nad oes digon o ddealltwriaeth ynghylch eu teimladau ac ymatebion ymddygiadol/trawma).
- Eisiau perthynas gyson a chadarnhaol â Gweithwyr Cymdeithasol fyddai'n gallu rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawliau.
- Cymorth parhaus ar gyfer pobl 25 oed ac yn hŷn gan yr Awdurdod Lleol trwy fodel allgymorth; a
- Cymorth parhaus i reoli dyheadau tymor hir e.e. prynu car, yswiriant, cyfleoedd swyddi, ac ati.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am lwyddiant y prosiect o ran rhieni sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn RhCT. Nododd y Swyddog y cymorth a roddwyd i aelodau grwpiau lleol a rhieni eraill sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn RhCT er mwyn cyfrannu at nifer o ymgynghoriadau yn ystod y chwarter diwethaf. Aeth y Swyddog ati i gadarnhau cyfraniad rhieni sydd â phrofiad o dderbyn gofal at Adroddiad Gofal Plant a Chyflogaeth Rhieni Llywodraeth Cymru, sef *'Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n*

*gweithio*'. Mae'r unigolion yma hefyd wedi cyfrannu at ymgynghoriad Urddas Mislif Plant yng Nghymru. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi barn a phrofiadau o ran effaith bod yn blentyn sy'n derbyn gofal.

Aeth y Swyddog Datblygu ati i gydnabod llwyddiant ymgysylltu â rhieni sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Serch hynny, er mwyn symud y prosiect yn ei flaen, bydd VfCC yn rhan o gyfleoedd pellach i rieni sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn RhCT yn y chwarter nesaf. Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu gynlluniau i gwrdd â Chyngor RhCT er mwyn trafod materion mewn perthynas â siarter '*Cefnogi Rhieni mewn gofal ac wrth ei adael*'.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Cafodd y prosiect yma ei gynnal yn ystod y chwarter diwethaf lle gweithiodd VfCC gyda phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn RhCT i gefnogi Gweinidogion a rhoi adborth iddyn nhw o ran cynlluniau diweddar ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifainc sydd â Phrofiad o Dderbyn Gofal.

Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r adroddiad a'r gwaith sydd wrthi'n cael ei gynnal gan VfCC. Nododd y Cadeirydd y gwaith sy'n cael ei gynnal gan RCT mewn perthynas â Rhieni Ifainc sy'n Derbyn Gofal a gofynnodd a oes gan RCT y cysylltiadau priodol yn eu lle â VfCC er mwyn rhoi cymorth pellach i rieni ifainc yn RhCT.
Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am strategaeth atal newydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal o'r enw MAGI. Nod MAGI fydd mynd i'r afael â materion o ran y nifer uwch o rieni sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau y bydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cael gwahoddiad i gofrestru ar gyfer y siarter. Siaradodd am degwch a rhesymoldeb y siarter i rieni sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am waith cydweithio rhwng VfCC a Rheolwr Datblygu Gwasanaethau, Gwasanaethau i Blant RhCT, mewn perthynas â chontract diwygiedig i sicrhau bod cysylltiad cyson a phresennol yn cael ei gynnal.

Gofynnodd Aelod gwestiwn am y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Gofynnodd am yr wybodaeth a gafodd ei rhoi i Weinidog y prosiect a sut mae cynhalwyr ifainc wedi croesawu'r cynllun.

Nododd y Swyddog Datblygu y byddai manylion pellach am yr wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog yn cael eu darparu yn ystod cyfarfod nesaf Pwyllgor y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Nododd y Swyddog Datblygu fod yr adborth a ddaeth i law gan gynhalwyr ifainc yn gadarnhaol. Serch hynny, roedden nhw'n effro i'r sylwadau negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol am y cynllun peilot. Aeth y Swyddog Datblygu ati i gydnabod y cymorth y bydd angen ei ddarparu mewn perthynas â'r maes yma.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol**:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR IFAINC 2021-22

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol adroddiad a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y gwaith gyda chynhalwyr ifainc yn RhCT yn ystod 2021/2022.
Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wybod i Aelodau am yr anawsterau a wynebwyd yn ystod y pandemig a arweiniodd at nifer uwch o atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau cynhalwyr ifainc. O ganlyniad i newidiadau i gyfyngiadau, darparodd elusen Gweithredu dros Blant wasanaethau cymorth i gynhalwyr ifainc ar ffurf sesiynau unigol a sesiynau i grwpiau llai. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wybod i Aelodau am effaith negyddol y pandemig ar iechyd meddwl a lles cynhalwyr ifainc gan nodi eu bod nhw'n teimlo'n fwy unig a phryderus.

O safbwynt y cymorth a roddir i gynhalwyr sy'n frodyr neu'n chwiorydd, nododd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol y cyllid sydd wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth wedi'i deilwra i'r grŵp.
Nododd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol bwysigrwydd cymorth i frodyr a chwiorydd gan ei fod yn darparu cyfleoedd iddyn nhw dreulio amser gyda rhiant/gwarcheidwad. Dyma rywbeth maen nhw'n ei golli yn aml o ganlyniad i anghenion gofal eu brodyr/chwiorydd. Yn rhan o Grantiau Seibiant i Gynhalwyr a chyllid Grant Gaeaf Llawn Lles ychwanegol, cafodd cynhalwyr sy'n frodyr neu'n chwiorydd a rhieni gyfle i fynd i weithgareddau coginio, Winter Wonderland a Zip World.
Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wybod i Aelodau am y Gwasanaeth i Gynhalwyr sy'n Oedolion Ifainc (YAC) ar gyfer y rheiny sy'n 18-25 oed. Aeth y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol ati i gydnabod y cymorth cyfyngedig a ddarparwyd i'r grŵp o ganlyniad i broblemau o ran staffio. Serch hynny, cafodd gweithiwr YAC newydd ei benodi ym mis Ionawr. Yn debyg i gynhalwyr ifainc, cafodd y pandemig effaith ar iechyd meddwl a lles y grŵp.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol sylw Aelodau at rai o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gynhalwyr ifainc. Mae'r rhain yn cynnwys y Cerdyn Adnabod i Gynhalwyr Ifainc, Ffilm i Gynhalwyr am Covid a Gwobr y Cynhalwyr Ifainc i Ysgolion.
Mae'r cerdyn adnabod yn fenter gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adnabod y cynhalwyr ifainc mewn ysgolion, lleoliadau iechyd a lleoliadau eraill ar ôl i gynhalwyr ifainc nodi hyn fel angen sawl gwaith. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wybod i Aelodau mai RhCT oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cynllun a bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn. Yn rhan o welliannau i'r Cerdyn Adnabod i Gynhalwyr, y bwriad yw cynyddu nifer y buddion megis gostyngiadau mewn sinemâu lleol a siopau manwerthu cenedlaethol.
Cafodd Aelodau wybod am y Ffilm i Gynhalwyr am Covid. Mae'r ffilm yn cynnwys cynhalwyr ifanc, cynhalwyr sy'n oedolion ifainc a chynhalwyr sy'n oedolion. Bwriad y ffilm yw tynnu sylw at brofiad cynhalwyr di-dâl o bob oed yn ystod y pandemig.
Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wybod i Aelodau am y Gwobr y Cynhalwyr Ifainc i Ysgolion. Mae cynnydd y Wobr wedi bod yn araf o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i effaith y pandemig. Fel y nodwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol, y nod yw gwella

ymwybyddiaeth o'r wobr mewn ysgolion yn RhCT.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant gan ganmol cynhalwyr ifainc am fod yn bobl ifainc ysbrydoledig. Nododd y Cadeirydd hyn hefyd ac mae'n edrych ymlaen at ddychwelyd y gwasanaethau wyneb yn wyneb a chwrdd â chynhalwyr ifainc. Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r cynllun peilot i gynhalwyr sy'n frodyr neu'n chwiorydd fel prosiect pwysig a bydd angen adroddiadau pellach ar y cynnydd. Yn rhan o Wobr y Cynhalwyr Ifainc i Ysgolion, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau i gynnwys Llywodraethwyr er mwyn hyrwyddo'r wobr mewn ysgolion.

Gofynnodd Aelod gwestiwn am y grwpiau gofal a gofynnodd am wybodaeth bellach ar yr hyn y mae cynhalwyr sy'n frodyr neu'n chwiorydd a chynhalwyr sy'n oedolion yn ei wneud er mwyn deall y pwysau sydd arnyn nhw. Cafwyd pryderon ynghylch bwlio'r grwpiau yma a pha mor gyffredin y mae'r mater yma.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol wrth yr Aelodau fod cynhalwyr ifainc a chynhalwyr sy'n frodyr neu'n chwiorydd yn fwy tebygol o gael eu bwlio oherwydd eu bod nhw'n gynhalwyr. Mae cymorth a mesurau atal yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r mater yma.

Gofynnodd y Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant i gydweithio â'r Rheolwr Gwasanaeth – Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol er mwyn helpu i ymgysylltu ag ysgolion a'u hannog i gymryd rhan yng Ngwobr y Cynhalwyr Ifainc i Ysgolion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad

**6 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**7 ADRODDIADAU RHEOLIAD 73**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 73 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Beddau, Carn Ingli a Bryndâr Nant-gwyn.

Amlinellodd y Swyddog grynodeb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.49am**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd.**